

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 241 (Cymru) – 31 Mai 2019

Etholiad Senedd Ewrop: casglu adborth a data ar ôl yr etholiad

Yn dilyn etholiad yr wythnos ddiwethaf, hoffem ddiolch o galon i chi i gyd am eich rôl hollbwysig yn paratoui ar gyfer Etholiad Senedd Ewrop a'i gynnal. Rydym yn cydnabod bod y cyfnod hwn yn arbennig o heriol ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich gwaith caled a'ch ymrwymiad.

Adborth ar Weinyddu'r Etholiad

Hoffem glywed am eich profiadau o weinyddu Etholiad Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019. Bydd hyn, nid yn unig yn llywio ein hadroddiadau ar ôl pob etholiad, ond bydd hefyd yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn eich cefnogi er mwyn cynnal etholiadau effeithiol yn y dyfodol. Cewch roi eich adborth drwy gwblhau [ein harolwg](#). A wnewch chi roi unrhyw adborth erbyn dydd Gwener 28 Mehefin 2019.

Casglu data

Fel y nodir ym [Mwletin 237](#), mae ein [ffurflen casglu data](#) a'r [nodyn cyfarwyddyd](#) ategol ar gyfer Etholiad Senedd Ewrop ar gael ar ein gwefan. Noder bod y ffurflen data ychwanegol wedi cael ei diweddarau. Os ydych wedi lawrlwytho'r ffurflen cyn heddiw, a wnewch chi ddefnyddio'r fersiwn newydd [yn lle hynny](#).

Ceir y ffurflen casglu data – sy'n cynnwys y datganiad statudol o ran papurau pleidleisio drwy'r post yn ogystal â cheisiadau am ddata ychwanegol – hefyd o dan [adran adnoddau Rhan F o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau](#).

Mae'r [nodyn canllaw](#) hwn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y dylid ei ddychwelyd. Mae'r ddwy ffurflen ar ddau dab gwahanol o'r ffurflen casglu data (Ffurflen R - Datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post a ffurflen Data Ychwanegol). Mae angen Ffurflen R a'r ffurflen data ychwanegol ar lefel awdurdod lleol arnom.

Dylech ddychwelyd bob ffurflen i research@electoralcommission.org.uk heb fod yn gynharach na

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiad Senedd Ewrop: casglu adborth a data ar ôl yr etholiad

Gwybodaeth am sut i
ddychwelyd adborth a data
ar ôl yr etholiad.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. ac maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y

dydd Mawrth 4 Mehefin 2019, ac erbyn dydd Iau 27 Mehefin 2019 fan bellaf.

cylchlythyr hwn mwyach,
gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar
unrhyw adeg.

Gwerthuso ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn gwerthuso ein hymgyrch i gofrestru pleidleiswyr gyda'r bwriad o gyhoeddi ein canfyddiadau yn nes ymlaen yn yr haf eleni. [Cysylltwch â ni](#) i rannu'ch gwaith ymgyrchu mewn perthynas ag etholiad mis Mai 2019 fel y gallwn ei gynnwys yn ein hasesiad fel enghreifftiau o weithgareddau arloesol a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo cofrestru yn eu hardaloedd.

A [gadewch i ni wybod](#) os ydych chi wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o dwyll etholiadol ac wedi grymuso pobl i ddiogelu eu pleidlais, gan ddefnyddio ein hadnoddau ymgyrch '[Dy bleidlais di a neb arall](#)'.

Rydym yn cydnabod bod yr adeg hon yn dal yn brysur gyda gwaith ar ôl yr etholiad, a'i bod yn dilyn cyfnod dwys o weithgareddau hyd at yr etholiad. Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth yn darparu adborth a data i ni.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019